# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

Mae gan ein cyngor cymuned ddyletswydd statudol dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (2016) sy'n datgan bod rhaid i bob corff cyhoeddus "*geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, cyn belled a bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny yn briodol.*"

I gydymffurfio, rhaid i gyngor: "*ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau a'u cynlluniau busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau dydd i ddydd.*"

## *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 201C Rhan 1 – Adran C Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau*

Cyflwyniad a chyd-destun –

- Mae'r ardal o fewn ffin Cyngor Cymuned Penmynydd a Star yn 3,200 acer (13 cilomedr sgwâr), gyda phoblogaeth o 441 (data ONS, diweddarwyd Mehefin 2024).
- Mae gan Gyngor Cymuned Penmynydd a Star 8 Cynghorydd ac mae'n cyflogi Clerc rhan amser. Ein praesept ar gyfer 2026/2027 oedd £10,800
- Mae gennym ardal o dirwedd gwledig, amaethyddol â thir pori parhaol wedi ei wella yw'r prif ddefnydd o'r tir.
- Rydym yn ymwybodol o effaith ein gweithredoedd ar ecosystemau a bioamrywiaeth ond cynghorol yw ein swyddogaeth gan fwyaf.
- Mae gennym gyfrifoldeb rheoli am ein Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC), ac rydym yn prydlesu'r cae chwarae yn Star a'r Ganolfan ym Mhenmynydd gan y Cyngor Sir. Rydym hefyd yn gyfrifol am loches bws, beiciau pren, 2 ddysgl blanhigion a 2 hysbysfwrdd.
- Mae'r Cyngor Cymuned yn cyflogi cwmnïau penodol i dorri'r glaswellt yn y cae chwarae a chynnal a chadw llwybrau cyhoeddus lleol.



# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

| Amcan CGANC | Amcan Bioamrywiaeth | Camau Arfaethedig | Amserlen | Monitro gan |
|---|---|---|---|---|
| **1** | **Cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael** | • Rydym wedi newid arferion torri gwair yn y cae chwarae er mwyn rhoi cyfle i flodau gwyllt dyfu yno yn ystod misoedd Mai a Mehefin. | Chwefror 2026 | Clerc |
| | | • Dysgl blanhigion – Cyflwynir cynllun plannu newydd gyda phlanhigion mwy gwydn a brodorol sy'n gyfeillgar i wenyn peillio ac yn fwy abl i wrthsefyll sychder. Ceisir cyngor ar blanhigion addas a chyllid posibl gan CSYM | Dechrau Ebrill 2026 | Cynghorwyr |
| | **Codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd** | • Byddwn yn ychwanegu adran ar ein gwefan i gynnwys gwybodaeth am lwybrau cyhoeddus yr ardal (mapiau) a'r bioamrywiaeth a welir wrth droedio'r llwybrau. | Gwanwyn 2026<br>Haf 2028 | Clerc<br>Gwirfoddolwyr |
| | | • Cafodd dudalen Facebook y Cyngor ei ddiweddaru i gynnwys crynodeb o'r rhywogaethau a welwyd yn y cae chwarae. | Gwanwyn 2026 | Cynghorwyr |

# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

| Amcan CGANC | Amcan Bioamrywiaeth | Camau Arfaethedig | Amserlen | Monitro gan |
|---|---|---|---|---|
| **2** | **Diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf, a gwella'r modd y'u rheolir** | • Trefnwyd ymweliad gan bartneriaeth Natur Leol a derbyniwyd cyngor ynghylch â pha rywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth Adran 7 sy'n bresennol yn yr ardal. | Mai 2023 | Clerc |
| | | • Trefnwyd ymweliad gan Uwch Swyddog Tirlunio a Choed Cyngor Sir Ynys Môn ar ôl gweld symptomau clefyd coed ynn ar ambell goeden yn y cae chwarae. Roedd rhaid eu dymchwel a phenderfynwyd plannu mwy o lasbrennau yn eu lle gyda chymorth Coed Cadw. | Mai 2023 | Clerc |
| | | • Byddwn yn cyflwyno ardaloedd torri a chasglu i greu ardaloedd dolydd ar ein glaswelltir amwynder. | Gorffennaf 2026 | Cynghorwyr |
| | | • Byddwn yn gofyn i'r Cyngor Sir roi'r gorau i chwistrellu chwynladdwyr ac ymchwilio i ddulliau amgen o gael gwared â llystyfiant diangen oddi ar y palmant a'r ymylon ffordd. | Ion 2027 | Clerc |
| | | • Bydd pob ymgynghoriad, yn enwedig y rhai ar gyfer caniatâd cynllunio, yn cael eu harchwilio am eu heffaith ar gynefinoedd, rhywogaethau a gweithrediad ecosystemau a byddwn yn gwneud sylwadau yn unol â hynny. | Mai 2026 | ar sail barhaus gan y Cyngor llawn |

# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

| Amcan CGANC | Amcan Bioamrywiaeth | Camau Arfaethedig | Amserlen | Monitro gan |
|---|---|---|---|---|
| **3** | **Adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth** | • Gyda chymorth Cadw Cymru'n Daclus creu ardal synhwyraidd yn y cae chwarae, sy'n cynnwys lawnt perlysiau a pherllan fechan, i ddarparu mwy o borthiant i beillwyr. | Chwefror 2026 | Cynghorwyr |
| | | • Gyda chymorth Cadw Cymru'n Daclus creu ardal blodau gwyllt yn y cae chwarae a phlannu bylbiau blodau brodorol. | Chwefror 2025 | Cynghorwyr a thrigolion lleol |
| | | • Creu cynefinoedd newydd trwy newidiadau i dorri'r gwair a gosod gwestai trychfilod a blychau adar o amgylch y cae chwarae fel cynefin i bryfaid, adar a mamaliaid bach. | Mai 2026 | Cynghorwyr |
| | | • Byddwn yn cynghori'r rhai sydd yn gwneud gwaith ar ein rhan, fel contractwyr, ar reoli bioamrywiaeth yn gydymdeimladol e.e. ar hyd ein llwybrau cyhoeddus ac yn y cae chwarae. | Mawrth 2026 | Clerc |
| | | • Rydym hefyd yn rhoi sylwadau ar gynlluniau a sefydlwyd gan eraill sy'n effeithio ar gynefinoedd ac ati. | Mai 2025 | ar sail barhaus gan y Cyngor llawn |
| | | • Gyda chymorth Coed Cadw byddwn yn plannu coed a gwrychoedd brodorol ac yn llenwi bylchau mewn gwrychoedd presennol o amgylch y cae chwarae. Bydd y gwrych hwn a adferwyd yn cynyddu cysylltiadau ar gyfer ein rhywogaethau targed a bywyd gwyllt arall. | Chwefror 2023<br>Hydref 2025 | Cynghorwyr a thrigolion lleol |

# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

| Amcan CGANC | Amcan Bioamrywiaeth | Camau Arfaethedig | Amserlen | Monitro gan |
|---|---|---|---|---|
| **4** | **Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd** | • Bydd aelodau'r cyngor yn neilltuo amser i ddysgu am y rhywogaethau estron goresgynnol mwyaf cyffredin ac yn gwirio ein tiroedd os ydyn nhw'n bresennol (h.y. Canclwm/Clymog Siapan a'r Ffromlys Chwarennog) ac yn ceisio cyngor a hyfforddiant lle bo angen. | Gwanwyn 2027 | Clerc |
| | | • Bydd unrhyw rywogaethau estron yn cael eu cofnodi a bydd yr awdurdodau priodol yn cael eu hysbysu os yw'n berthnasol. | Parhaus | Clerc |
| | | • Dileu defnydd plaladdwyr ar dir sy'n eiddo i/a reolir gan y Cyngor Cymuned. Gofyn i'r Cyngor Sir roi'r gorau i chwistrellu. | Erbyn diwedd 2026 | Cyngor Llawn a Chynghorydd Sir |
| | | • Rhannu gwybodaeth am effeithiau negyddol chwynladdwyr a phlaladdwyr gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, gwefan, cylchlythyr ac arwain trwy esiampl. | Erbyn diwedd 2027 | Clerc a gwirfoddolwyr |

# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

| Amcan CGANC | Amcan Bioamrywiaeth | Camau Arfaethedig | Amserlen | Monitro gan |
|---|---|---|---|---|
| 5 | **Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n systemau monitro** | • Cofnodi rhywogaethau a welir yn y cae chwarae a gosod y canlyniadau ar dudalen Facebook y Cyngor | Haf 2025 | Clerc |
| | | • Datblygu'r uchod wrth gynnwys yr ardal ehangach gan ddefnyddio ap LERC. Cyhoeddi'r cofnodion ar ein tudalen Facebook er mwyn creu mwy o ddiddordeb a chyfranogiad. | Gwanwyn 2027 / parhaus. | Clerc |
| | | • Bydd cyfle i aelodau'r cyngor fynychu cyrsiau hyfforddi a gweminarau Un Llais Cymru'n ymwneud â bioamrywiaeth. | Parhaus | Clerc |
| | | • Bydd cyfleoedd i grŵp gwirfoddol fynychu digwyddiadau hyfforddi am ddim gyda'r Tirweddau Cenedlaethol/Partneriaeth Natur Lleol Ynys Môn | Pan fo'n berthnasol | Clerc a Chadeirydd y Pwyllgor |

# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

| Amcan CGANC | Amcan Bioamrywiaeth | Camau Arfaethedig | Amserlen | Monitro gan |
|---|---|---|---|---|
| **6** | **Cefnogi capasiti a/neu sefydliadau eraill** | • Creu a chynnal cysylltiadau a llinellau cyfathrebu da gyda Cadw Cymru'n Daclus, Coed Cadw, Cyngor Sir ac Un Llais Cymru .<br>• Bydd y Cyngor yn diweddaru'r ddogfen hon yn barhaus, a bydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol.<br>• Bydd cynnydd y cynllun hwn yn cael ei adrodd yn llawn yn Adroddiad Adran 6 y Cyngor. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar ein gwefan erbyn diwedd 2028 gan gydymffurfio â dyletswydd cydnerthedd Adran 6 - Bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. | Parhaus<br>Blynyddol<br>Erbyn diwedd 2028 | Clerc<br>Cyngor Llawn<br>Cyngor Llawn |

# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

| Adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth | Dyddiad yr adolygiad: | Mai 2026 |
|---|---|---|
| **Beth sydd wedi gweithio'n dda?** | Yn sgil y prosiectau cymunedol a welwyd yn y cae chwarae rydym wedi sefydlu cysylltiadau da gyda thimau Cadw Cymru'n Daclus a Coed Cadw. Cawsom becyn bylbiau a phlanhigion gan Cadw Cymru'n Daclus i'w gosod yn y planwyr. Ar ôl cael eu plannu gan blant lleol roedd y planwyr yn edrych yn wych a chawsom lawer o adborth cadarnhaol ar dudalen Facebook y Cyngor. Yn sgil hyn crëwyd taflen adnabod rhywogaethau blodau a'i osod ar dudalen Facebook y Cyngor.<br><br>Ar ôl gorfod dymchwel nifer o goed yn y cae chwarae oherwydd clefyd coed ynn cawsom 30 o lasbrennau gan Coed Cadw. Cafodd drigolion lleol y cyfle i blannu glasbren er cof am anwyliaid a gollwyd, i ddathlu genedigaeth neu am resymau amgylcheddol. Roedd hyn yn llwyddiant ysgubol a chawsom 30 o lasbrennau ychwanegol er mwyn adfer y gwrychoedd sy'n amgylchynu'r cae.<br><br>Cyflogwyd contractwr am y tro cyntaf i glirio a thorri ein llwybrau cyhoeddus. Cafwyd canmoliaeth gan nifer oedd yn cerdded llwybrau'r ardal. | | |
| **Beth am y rhwystrau?** | Y prosiect mwyaf heriol oedd creu gardd synhwyraidd o ardal yn y cae chwarae oedd wedi cael ei feddiannu a'i ffensio gan un o drigolion lleol er mwyn ehangu ei ardd. Ar ôl y gwaith caled o dynnu'r ffens a chlirio'r ardal o ordyfiant, plannwyd perllan fechan o goed ffrwythau lleol, gosod lawnt perlysiau a phlannu hadau blodau gwyllt. Byddem yn newid arferion torri gwair yr ardal yma er mwyn rhoi cyfle i flodau gwyllt dyfu yno yn ystod misoedd Mai a Mehefin.<br><br>Mae argaeledd cyllid wedi arafu cynnydd gyda rhai grantiau â chyfnodau byr i wneud cais amdanynt. | | |
| **Beth fyddwch yn ei newid?** | Byddwn yn ysgrifennu at y Cyngor Sir i ofyn am roi'r gorau i chwistrellu plaladdwyr. | | |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf:** | Mehefin 2027 | | |
| **Cymeradwywyd gan y Cyngor ar:** | Mai 6ed 2026 | | |

# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

YN ÔL


## Trigolion lleol yn adeiladu planwyr a phlant lleol yn plannu blodau a bylbiau









# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

YN ÔL

## Trigolion lleol yn plannu coed ac atgyfnerthu gwrychoedd







# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star




## Prosiect creu gardd synhwyraidd (lawnt perlysiau a pherllan)

**Cyn**



**Ar ôl**



**Coed ffrwythau brodorol a blanwyd**







